



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Cadeirydd y Cyngor

Pecyn Ymgeiswyr
Haf 2026



Rhagarweiniad

Ers ei sefydlu ym 1884, mae gan Brifysgol Bangor draddodiad hir o ragoriaeth academiaidd, a phwyslais cryf ar brofiad myfyrwyr. Heddiw mae tua 10,000 o fyfyrwyr yn astudio yn y Brifysgol. Mae ganddi tua 1,700 o staff mewn deuddeg o Ysgolion Academiaidd o fewn tri Choleg, wedi eu cefnogi gan nifer o Wasanaethau Proffesiynol.

Mae Prifysgol Bangor yn falch o'i chymeriad dwyieithog nodedig, lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu gwerthfawrogi'n gyfartal fel ieithoedd dysg, gwaith a chymuned. Saif y Brifysgol yn un o gadarnleoedd yr iaith, ac yn hyn o beth mae hi wedi ymrwymo i hyrwyddo a dathlu dwyieithrwydd ym mhob agwedd ar ei gweithgareddau. Mae'r ymrwymiad hwn yn cyfoethogi profiad y myfyrwyr a'r staff, yn cryfhau ein cysylltiad â'r cymunedau a wasanaethwn, ac yn adlewyrchu ein cred bod amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol yn ffynhonnell o ragoriaeth academiaidd, arloesedd a chynhwysiant. Fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, rydym yn chwilio am arweinwyr a fydd yn hyrwyddo ac yn meithrin y nodwedd ddiffiniol hon o hunaniaeth a dyfodol y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol wedi'i rhestru yn safle 30 yn y Deyrnas Unedig am effaith gymdeithasol ei hymchwil yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diwethaf; mae hi ar y brig yng Nghymru ac yn safle 17 yn y Deyrnas Unedig ar restr University Compare 2027; yn ail yng Nghymru, yn safle 40 yn y Deyrnas Unedig ac yn safle 360 yn y byd ar restr TIME 2026 o Brifysgolion Gorau'r Byd; ymhlith y 50 uchaf yn y Deyrnas Unedig yn y Complete University Guide 2027; ac ymhlith y 10 uchaf yn y Deyrnas Unedig ac yn safle 74 yn y byd am gynaliadwyedd yn y Times Higher Education (THE) Sustainability Impact Rankings 2026.

Bydd Mrs Marian Wyn Jones, Cadeirydd presennol y Cyngor, yn camu o'r neilltu ar 30 Tachwedd 2026, ac rydym ni nawr yn ceisio penodi ei holynydd i arwain y corff llywodraethu ar adeg hollbwysig i addysg uwch. Bydd y swyddogaeth bwysig hon yn darparu arweinyddiaeth strategol, llywodraethu cadarn a goruchwyliaeth effeithiol, a bydd y sawl a benodir yn gynghorydd dibynadwy a chyfaill beirniadol i'r Is-ganghellor.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol sgiliau arweinyddiaeth cryf, a hanes o ymdrin yn llwyddiannus â sefyllfaoedd cymhleth. Bydd ganddynt brofiad o lywodraethu ar frig sefydliad mawr, ynghyd â chraffter ariannol, barn gadarn a sgiliau rhagorol o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Mae gallu cyfathrebu'n effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol i'r penodiad hwn.

Byddant yn llysgennad dylanwadol, yn gallu meithrin perthnasoedd ar draws cymunedau amrywiol ac ymdrin â'r byd addysg uwch sy'n esblygu yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, gydag ymrwymiad cryf i lwyddiant myfyrwyr a staff y Brifysgol.

Mae profiad mewn addysg uwch yn ddymunol, ond mae dealltwriaeth gref o'r sector a'i heriau cyfredol yn hanfodol.

Rydym hefyd yn awyddus i ddenu ceisiadau gan bobl a fyddai â diddordeb bod yn Aelod Annibynnol o'r Cyngor. Bydd Aelodau Annibynnol yn arweinwyr strategol profiadol, gydag arbenigedd mewn archwilio, y gyfraith, seiberddiogelwch, deallusrwydd artiffisial, eiddo, a/neu wyddoniaeth.

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac yn arbennig o awyddus i annog ceisiadau gan ymgeiswyr o ystod amrywiol o gefndiroedd. Mae ar y Brifysgol eisiau sicrhau bod y Cyngor yn adlewyrchu amrywiaeth cymuned y Brifysgol ac mae hi wedi ymrwymo i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y Cyngor, cyfran yr aelodau annibynnol sy'n medru'r Gymraeg, a'r aelodaeth o blith pobl dduon ac Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig.

Dyma adeg gyffrous i ymuno â ni ym Mhrifysgol Bangor.





Amdanom Ni

Enw Da am Ragoriaeth

Gosodwyd gwaith ymchwil Prifysgol Bangor mewn safle uchel yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil Llywodraeth y Deyrnas Unedig (REF2021), gydag 85% ohono yn cael ei farnu gyda'r gorau yn y byd (4*) neu'n rhagorol yn rhyngwladol (3*). Mae ymchwil Prifysgol Bangor ym maes Gwyddorau Daear a Gwyddorau'r Amgylchedd wedi ei osod yn y safle cyntaf am effaith ymchwil, tra bod Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Deintyddiaeth, Nyrsio a Fferylliaeth yn y 15fed safle yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn adeiladu ar y cryfderau ymchwil sydd gennym yn y gwyddorau dynol ac mae'n helpu i ddatblygu iechyd a gofal cymdeithasol at y dyfodol a hynny'n gynaliadwy, yn seiliedig ar le ac yn hybu twf y sector gwyddorau bywyd rhanbarthol.

Prifysgol Bangor oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i dderbyn y Dyfarniad Aur, sef y safon uchaf yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu cenedlaethol, a daliodd ei gafael ar y safon honno tra bu'r fframwaith yn weithredol. Wedi hynny, mae'r Brifysgol wedi cael dau Adolygiad Gwella Ansawdd gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, a dyfarnwyd sawl canmoliaeth yn y ddau adolygiad heb unrhyw argymhellion.

Ein Cenhadaeth

Mae ein Prifysgol yn rhoi pwyslais mawr ar ymchwil. Mae hi wedi ei meithrin gan dreftadaeth, iaith, diwylliant a chymunedau gogledd Cymru, ac yn gwasanaethu'r byd. Rydym yn creu newid cadarnhaol drwy addysg ac ymchwil drawsnewidiol sydd gyda'r gorau yn y byd, gan ddarparu twf a chyfleoedd cynaliadwy fel y gall cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol fyw bywydau cyflawn.

Ein Gweledigaeth

Gwella ein henw da fel prifysgol ac iddi fri rhyngwladol am addysg ac ymchwil, ac fel sefydliad sy'n arloesi dros y Gymraeg trwy fod â phortffolio penodol, a gyfoethogir gan ein lleoliad ac sydd â chyrhaeddiad byd-eang. Bod ein gwaith yn cael effaith gymdeithasol ac amgylcheddol ystyrlon ar ogledd Cymru a'r byd yn ehangach.



Ein Hanes

Sefydlwyd y Brifysgol o ganlyniad uniongyrchol i ymgyrch yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i gael darpariaeth addysg uwch yng Nghymru. Casglwyd arian trwy danysgrifiad cyhoeddus er mwyn sefydlu coleg ar lefel prifysgol ym Mangor.

Un o nodweddion pwysig ei sefydlu oedd y cyfraniadau gwirfoddol a wnaed gan bobl leol, gan gynnwys, ymhlith eraill, nifer o ffermwyr a chwarelwyr. Prin y gallent fforddio roi o'u harian prin, ond gwnaethant hynny er gwaetha'r anawsterau er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Brifysgol yn parhau i gofio'r cyfraniadau hynny a arweiniodd at ei sefydlu a chefnogaeth y gymuned byth ers hynny, ac mae'n parhau'n driw i'r weledigaeth wreiddiol honno a'r angen i gofio am ei gwreiddiau wrth inni adeiladu'r Brifysgol i'r dyfodol. Yn wir, caiff y gwerthoedd hynny eu hadlewyrchu heddiw yng nghefnogaeth y Brifysgol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).



Ein Campysau

Mae lleoliad Bangor - rhwng y môr a'r mynyddoedd - wedi ei ddisgrifio fel y lleoliad gorau i brifysgol yn y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, enwyd gogledd Cymru fel y 4ydd rhanbarth gorau yn y byd i ymweld ag ef gan y tywyslyfr teithio, Lonely Planet, oherwydd y lleoliad ysblennydd a'r cyfleusterau chwaraeon antur newydd sbon danlli sydd yma.

Nodwyd fod gan y Brifysgol y Neuaddau Myfyrwyr Gorau yng Nghymru ac roedd yn ddeuddegfed yn y Deyrnas Unedig yn rhestr y Prifysgolion Gorau ar gyfer Llety Uni Compare 2026

Mae cyrhaeddiad y Brifysgol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r campws ym Mangor. Mae gan y Brifysgol gyfleusterau a champysau ledled y rhanbarth, gan gynnwys campws sylweddol yn Wrecsam lle dysgir myfyrwyr, a chyfleusterau ymchwil ehangach ledled gogledd Cymru. Mae yma hefyd gyfleusterau addysgu clinigol i fyfyrwyr meddygol a gofal iechyd ar safleoedd Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam ac mewn sawl ysbyty cymunedol. Mae gan y Brifysgol hefyd berthynas waith glos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a darparwyr gofal iechyd sylfaenol ledled y gogledd.

Addysgu a Dysgu

Mae Prifysgol Bangor yn cynnig amgylchedd dysgu sy'n rhagori'n academiaidd, sy'n rhoi pwyslais ar y dyfodol ac ar gefnogaeth wirioneddol, ac sy'n gysylltiedig â diwyllianau, ieithoedd a chymunedau ein myfyrwyr, staff a'r rhanbarth a wasanaethwn. Mae ein rhaglenni addysgol yn bwrpasol ac yn cyfateb i anghenion sgiliau a gweithlu'r dyfodol, gyda rhaglenni o ansawdd uchel, seiliedig ar ymchwil ac wedi'u cynllunio gyda llwybrau clir i lwyddiant graddedigion. Mae'r ymrwymiad hwn i ansawdd wedi cael ei gydnabod yn annibynnol drwy ddau Adolygiad Gwella Ansawdd olynol gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, a chafwyd sawl canmoliaeth yn y ddau adolygiad a dim argymhellion.

Mae dysgu yn hygyrch, yn hyblyg ac wedi'i alluogi'n ddigidol, wedi'i gyflwyno drwy ddarpariaeth ar y campws, ar-lein ac o bell gydag ehangu mynediad a chynhwysiant yn rhan annatod o'n ffordd o weithio. Mae ein hymrwymiad nodedig i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ochr yn ochr â chymuned amrywiol o fyfyrwyr cartref a rhyngwladol, yn creu amgylchedd dysgu cyfoethog gyda chysylltiadau byd-eang. Drwy gydweithio, cefnogi lles a phrofiad myfyrwyr cysylltiedig, mae myfyrwyr yn cael eu grymuso i ffynnu o'u diwrnod cyntaf hyd at raddio a thu hwnt, gan eu paratoi at yrfaedd ystyrlon a llwyddiant gydol oes.

Profiad Myfyrwyr

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ddarparu profiad myfyrwyr cynhwysfawr a chynhwysol i fyfyrwyr, gyda lles, perthyn a llwyddiant wrth ei wraidd. O'r dyddiad cyntaf hyd at raddio a thu hwnt, cefnogir myfyrwyr ar bob cam, ym mhob dull astudio a thrwy fywyd allgyrsiol bywiog, gydag ystod eang o glybiau, cymdeithasau Undeb y Myfyrwyr a chwaraeon i weddu i bob diddordeb.

Rydym yn cydweithio yng ngwir ystyr y gair â'n myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr, gan sicrhau bod llais y myfyrwyr yn llywio dyluniad, darpariaeth a gwelliant parhaus y dysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr. Mae ein Hwb Gwasanaethau Myfyrwyr yn darparu cyngor ac arweiniad cydgysylltiedig, gan gynnwys cefnogaeth ynghylch cyllid, tai, anabledd, cwnsela, cyflogadwyedd a sgiliau astudio, fel bod gan bob myfyriwr yr hyn sydd ei angen arnynt i ffynnu.

Ymchwil

Cenhadaeth Prifysgol Bangor yw bod yn Brifysgol yng Ngogledd Cymru ac ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n cael ei harwain gan ymchwil, sy'n darparu profiadau dysgu trawsnewidiol ac sy'n meithrin effaith gadarnhaol ar gymdeithas yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ([Strategaeth 2030](#)). Ledled y Brifysgol, mae cysylltiad clos rhwng ymchwil ac addysgu: mae bron pob un o'r academyddion ymchwil yn dysgu hefyd, gan sicrhau bod y myfyrwyr yn elwa o'r wybodaeth sy'n deillio o'n hymchwil. Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, nodwyd bod 40% o'n hymchwil yn 4* neu gyda'r gorau yn y byd a 45% yn 3* neu'n rhagorol yn rhyngwladol. Cafodd 77% o ymchwil Bangor ei roi yn y categori 4* neu 3* yn y fframwaith blaenorol yn 2014. Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, cynyddodd hynny i 85%. Mae Prifysgol Bangor yn safle 41 am y gyfran o'n hamgylchedd ymchwil yr ystyrir ei fod gyda'r gorau yn y byd, ac yn safle 46 (allan o 129 - heb gynnwys chwe sefydliad un pwnc) yn y sector am allbynnau ymchwil megis cyhoeddiadau.

Ein Hymrwymiad i Gynaliadwyedd

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i gael ei chydabod yn fyd-eang fel “Y Brifysgol Gynaliadwy”. Mae llawer o'r hyn a wnawn yn seiliedig ar yr awydd i ddod â chynaliadwyedd i bob agwedd ar fywyd, o ran ein haddysgu, ein hymchwil a'n ymgysylltiad â'r cyhoedd. Rydym yn Brifysgol sy'n rhoi pwyslais ar iechyd cynhwysfawr pobl, ac yn hyn o beth rydym yn cefnogi'n staff i wireddu eu potensial, ymdopi â straen arferol bywyd, gweithio'n gynhyrchiol a chyfrannu at eu cymunedau. Mae ein blaenoriaethau'n canolbwyntio ar ataliaeth ac ymyrraeth gynnar i feithrin gwytnwch, llesiant cenedlaethau'r dyfodol, a symud, gweithgarwch corfforol a chwaraeon.

Rheolaeth a Llywodraeth y Brifysgol

Mae'r brifysgol wedi ei hymgorffori drwy Siarter Frenhinol, a roddwyd gyntaf iddi yn 1885, ac sydd wedi cael ei hailysgrifennu a'i diwygio ar sawl achlysur yn dilyn hynny. Mae'r Siarter (a'r Ordinadau ategol) yn gosod fframwaith bras i strwythur cyfreithiol a dull llywodraethu'r brifysgol.

Y Cyngor

O dan y Siarter a'r Ordinadau, y Cyngor yw corff llywodraethu'r brifysgol. Cafodd Siarter y Brifysgol ei moderneiddio a'i diweddarau yn 2025. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor 20 aelod, gan gynnwys staff, myfyrwyr, a'r mwyafrif sy'n aelodau annibynnol. Cadeirydd y Cyngor ar hyn o bryd yw Mrs Marian Wyn Jones. Mae aelodau Cyngor y Brifysgol yn chwarae rhan allweddol wrth yrru'r sefydliad ymlaen a siapio'i gyfeiriad strategol a'i genhadaeth, ac yn sicrhau y caiff ei lywodraethu a'i reoli'n effeithiol.

Swyddogaeth y Cyngor

Swyddogaeth y Cyngor yw gosod cyfeiriad strategol y Brifysgol, goruchwyllo perfformiad, a sicrhau llywodraethu effeithiol a chynaliadwyedd ariannol.

Mae ffin glir rhwng 'llywodraethu' a 'rheolaeth' ac ni fydd aelodau'r Cyngor yn ymwneud â rheoli'r Brifysgol yn weithredol o ddydd i ddydd. Mae pwerau'r Cyngor wedi'u nodi yn Ordinhad 1. Mae rhagor o wybodaeth am y Cyngor ar gael ar [wefan](#) y brifysgol.

Mae gan y Cyngor nifer fach o Bwyllgorau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau:

- Y Pwyllgor Archwilio a Risg (is-bwyllgor: Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau)
- Y Pwyllgor Cyllid (is-bwyllgor: Y Pwyllgor Buddsoddi)
- Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu
- Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
- Y Pwyllgor Taliadau
- Pwyllgor Materion y Gymraeg

Y Llys

Y Llys yw grŵp rhanddeiliaid Prifysgol Bangor, ac mae'n darparu fforwm i aelodau'r gymuned ryngweithio â'r Brifysgol. Canghellor y Brifysgol, Syr Robin Williams, yw llywydd y cyfarfod, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, aelodau Senedd San Steffan ac aelodau Senedd Cymru, y bwrdd iechyd lleol, cynrychiolwyr o blith cyn-fyfyrwyr y brifysgol, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r Llys yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

Y Bwrdd Gweithredol

Y **Bwrdd Gweithredol** yw uwch grŵp rheoli'r Brifysgol, ac mae'n gyfrifol am reolaeth a gweinyddiad cyffredinol y Brifysgol o ddydd i ddydd.

Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol yw'r Is-ganghellor yr Athro Edmund Burke.



Y Swyddogaeth

Teitl y swyddogaeth:	Cadeirydd y Cyngor
Cyfnod:	Cyfnod cychwynnol o bedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o ail gyfnod o 4 blynedd.
Ymrwymiad Amser:	Pedwar diwrnod y mis ar gyfartaledd dros y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod y tymor.
Cyflog:	Nid oes tâl am y swyddogaeth hon er y gellir adhawlio treuliau rhesymol.

Elfennau allweddol y swyddogaeth:

Arweinyddiaeth

Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am arwain y Cyngor, fel corff llywodraethu'r Brifysgol, ac yn y pen draw am ei effeithiolrwydd.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn gwneud ei waith yn broffesiynol, gan weithredu gydag anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn goruchwyllo ac yn dal sylw ar y materion hynny y mae angen iddo eu trafod.

Mae'r Cadeirydd yn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n unol â Siarter ac Ordinhadau'r Brifysgol, a'r rheolau a'r rheoliadau perthnasol eraill gan gynnwys Cod Rheolaeth Ariannol Medr.

Mae i'r Cadeirydd ran ganolog yn nhrافodion y brifysgol nad oes a wnelont â rheolaeth feunyddiol, gan sicrhau perthynas waith adeiladol â'r Is-ganghellor a'r Bwrdd Gweithredol.

Rhaid bod perthynas waith adeiladol a heriol rhwng y Cadeirydd a'r Is-ganghellor, fel pennaeth gweithredol y sefydliad, gyda'r



Cyngor yn dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif. Rhaid i'r Cadeirydd a'r Is-ganghellor gydnabod bod eu swyddogaethau o reidrwydd yn wahanol.

Mae ymarfer gorau yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gadeirydd y Cyngor, yr Is-ganghellor ac Ysgrifennydd y Brifysgol gydweithio'n agos o fewn y fframwaith cyfreithiol a ddarperir gan Siarter ac Ordinhadau'r Brifysgol, Cod Llywodraethu Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion a'r telerau ac amodau ariannu a nodir gan Medr.

Adolygu, ar ran y Cyngor, perfformiad yr Is-ganghellor yn rheolaidd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Taliadau yn unol â hynny.

Adolygu perfformiad aelodau unigol y Cyngor, ac Ysgrifennydd y Cyngor, yn flynyddol.

Sicrhau, drwy Ysgrifennydd y Brifysgol, bod pob aelod newydd o'r Cyngor yn ymgynefino ac yn ymgysgu'n llawn â thelerau eu penodiad a'u cyfrifoldebau dros lywodraethu'r Brifysgol.

Awdurdod Dirprwyedig

Gweithredu yn unol â phrotocolau sefydledig ar gyfer defnyddio pwerau dirprwyedig fel y'u hamlinellir yn Ordinhad 10 Prifysgol Bangor.

Dim ond lle byddai'n amhriodol aros i'r mater gael ei ystyried mewn cyfarfod rheolaidd o'r Cyngor y mae Cadeirydd y Cyngor wedi'i awdurdodi i weithredu yn y fath fodd.

Prif Elfennau

Bydd swyddogaeth y Cadeirydd yn cynnwys yr ymrwymadau canlynol:

Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor (pum cyfarfod cyffredin ac un cyfarfod cwrdd i ffwrdd strategol y flwyddyn), gan sicrhau y'u cynhelir yn effeithlon ac mor agored â phosibl.

Cadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor Enwebiadau (4 y flwyddyn) a gweithio gydag Ysgrifennydd y Brifysgol i sicrhau proses effeithiol ar gyfer recriwtio a phenodi aelodau annibynnol y Cyngor, ac i sicrhau y ceir cyfuniad priodol o sgiliau, profiad ac amrywiaeth.

Mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid (chwech y flwyddyn)

Mynychu cyfarfod blynyddol y Llys, gan gynnwys cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb y Canghellor.

Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio adnoddau'r Brifysgol yn effeithlon ac effeithiol i hyrwyddo ei dibenion elusennol,

sicrhau ei chynaliadwyedd ariannol hir dymor, a bod gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau rheolaeth ariannol a gwarchod rhag twyll.

Sicrhau bod y Cyngor yn arfer rheolaeth dros gyfeiriad strategol y Brifysgol, a bod asesu digonol ar berfformiad y Brifysgol yn unol â'r amcanion a gymeradwyodd y Cyngor.

Mynychu digwyddiadau yng nghalendr blynyddol y Brifysgol fel Seremonïau Graddio.

Cynrychioli'r Cyngor a'r Brifysgol ar y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol a hefyd ar bwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion Cymru.

Gweithredu fel llysgennad i'r Brifysgol, gan hyrwyddo ei gweithgareddau yn y gymuned ehangach ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Sicrhau bod Cyngor y Brifysgol, fel y cyflogwr cyfreithiol, yn cymryd cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr a phobl eraill yr effeithir arnynt gan weithgareddau'r Brifysgol.

Datgan Buddiannau

Mae'n hanfodol er mwyn cynnal gwaith y brifysgol yn briodol fod y Cadeirydd yn gweithredu'n ddiduedd, y'i gwelir felly gan eraill, ac na chaiff ei ddylanwadu gan fuddiannau na materion allanol.

Ynghyd â holl aelodau eraill y Cyngor (gan gynnwys aelodau staff y Brifysgol), rhaid i'r Cadeirydd ddatgan unrhyw fuddiannau allanol, gan ddatgelu unrhyw fuddiannau yn llawn ac yn amserol.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am ddatrys achosion o wrthdaro gwirioneddol neu ymddangosiadol er mwyn sicrhau na pheryglir enw da'r Cyngor.

Gofynion Personol

Profiad o Lywodraethu

- Profiad amlwg o lywodraethu mewn sefydliad mawr a chymhleth, naill ai fel ymddiriedolwr / cyfarwyddwr anweithredol neu fel swyddog gweithredol yn rhyngweithio â bwrdd sefydliad.
- Dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng llywodraethu a rheolaeth.
- Ymlyniad at Egwyddorion Nolan (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth) a'r gallu i'r sicrhau fod holl aelodau'r Cyngor yn cadw at yr egwyddorion hyn.

Profiad a sgiliau

- Profiad o Gadeirio ac arwain cyfarfodydd ar haen uchaf sefydliad, gan gynnwys y gallu i ddeall materion cymhleth yn gyflym, i dderbyn ac ymgysylltu â safbwyntiau amrywiol, a cheisio cynnydd trwy gonsensws.

Ymrwymiad i'r Sector Addysg Uwch

- Mae rhywfaint o brofiad yn y sector Addysg Uwch yn ddymunol ar gyfer y swyddogaeth hon. Bydd gan y sawl a benodir ddealltwriaeth weithredol o'r sector a'r heriau penodol y mae prifysgolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd mewn cyd-destun polisi sy'n esblygu'n gyflym a marchnad fyd-eang gystadleuol, neu bydd yn datblygu'r ddealltwriaeth honno'n gyflym.
- Ymrwymiad personol cryf i genhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol, gan gynnwys ei gweledigaeth a'i dyheadau i ragoriaeth genedlaethol a rhyngwladol.

Sgiliau a nodweddion personol

Bydd gan y Cadeirydd y sgiliau allweddol canlynol:

- Cryn hygredded personol, uniondeb a barn gadarn.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, y gallu i weithio'n hyderus ac yn effeithiol gydag ystod eang o sefydliadau a rhanddeiliaid yn fewnol ac yn allanol.
- Sgiliau rhyngpersonol rhagorol a'r gallu i sefydlu perthynas waith dda ag ystod amrywiol o bobl, yn cynnwys staff, myfyrwyr ac aelodau eraill o'r Cyngor.
- Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Byddant yn eiriolwr cryf dros yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, yn gallu arwain sefydliad dwyieithog yn hyderus ac yn gallu cynnal trafodion y Brifysgol yn effeithiol drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.
- Fel llysgennad gweladwy i'r Brifysgol, byddant yn helpu sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu wrth galon y sefydliad a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

- Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog, gyda darpariaeth gyfieithu, ac anogir aelodau i gyfrannu yn yr iaith o'u dewis (naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.)
- Sgiliau rhwydweithio, dylanwadu ac eiriol a'r gallu i ymdrin â gwrthdaro mewn ffordd adeiladol, gyda doethineb a thringarwch.
- Ymwbyddiaeth a dealltwriaeth o'r sefyllfa wleidyddol sy'n effeithio ar Addysg Uwch - yn lleol, yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig - gan gynnwys deinameg economaidd a chymdeithasol Cymru, fel gwlad ddatganoledig.
- Gallu dangos lythrennedd ariannol rhagorol, gan gynnwys y gallu i ddehongli a herio gwybodaeth ariannol gymhleth, deall cyllidebau sefydliadol a rheolaethau ariannol, a chyfrannu'n effeithiol at gynllunio ariannol strategol a gwneud penderfyniadau.





Sut i wneud cais

Dylid anfon ceisiadau, ar ffurf CV a llythyr eglurhaol, i bangor@minervasearch.com dim hwyrach na 7 Hydref 2026.

Bydd Pwyllgor Penodi a benodir gan y Cyngor o dan ofynion Ordinhad 2 yn ystyried pob cais. Gwahoddir ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer i gyfweiliad wyneb yn wyneb (19 Hydref 2026) ym Mhrifysgol Bangor.

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac yn arbennig o awyddus i annog ceisiadau gan ymgeiswyr o ystod amrywiol o gefndiroedd. Mae'r Brifysgol yn eiddgar i sicrhau bod y Cyngor yn adlewyrchu amrywiaeth cymuned y Brifysgol ac mae hi wedi ymrwymo i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y Cyngor, cyfran yr aelodau annibynnol sy'n gallu siarad Cymraeg, a'r aelodaeth o blith y gymuned LHDTC+ a phobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig.

Mae'r Brifysgol yn elusen gofrestredig ac mae aelodau'r Cyngor yn ymddiriedolwyr. Rhaid i ymgeiswyr felly fod yn barod i weithredu fel ymddiriedolwr ac ni ddylai unrhyw reswm a bennir gan y Comisiwn Elusennau eu rhwystro rhag gweithredu fel ymddiriedolwr.

MINERVA





PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



bangor.ac.uk